CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 11eg o Ragfyr 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Bethan Holding | Iwan Harding | |
| Rhys ap Gwilym | Helen Sharp | |
| Emlyn Baylis | Gwilym Evans | |
| Kevin Jones | Llinos Pritchard | |
| Kim Jones | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Louise Price, Cynghorydd Nia Jones, Cynghorydd Tristan Thomas a'r Cynghorydd Iola Owen. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Prosiect Cymunedol - (Celf wedi ei wneud gan ddeunydd sydd wedi ei ailgylchu roedd y Cyngor yn gefnogol ond bod cwestiynau yn codi fel lleoliad a chyfrifoldeb am y gelf. | **Clerc** |
| **I.3** | Arolwg Cymunedol - dim sylwadau ond bod angen sicrhau bod enw'r Cyngor yn cael ei newid yn swyddogol i Cyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris. | |
| **1.4** | Llythyr Ymgynghoriad Cynlluniau Parcio - Derbyn bod meysydd parcio aros hir o dan permit ar gael yn y gaeaf a bod yr amseroedd yn cydgordio ac amserlen y Sherpa droes y Gaeaf. | **CLERC** |
| **1.5** | Hyrwyddo Gwasanaeth Cynllunio Cydnerth sy'n Perfformio'n dda. Penderfynu trafod yr eitem hon yng nghyfarfod mis Ionawr. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Tachwedd 2024 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd 2024. | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn - dal i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd gyflwyno bin. Penderfynwyd prynu a gosod bin fel Cyngor ac yn trefnu cael ei wagio gan Wynedd. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - dim dilyniant hyd yma. Mae cyfnod ymgynghoriad Cynllunio yn parhau i fod yn fyw. | **CLERC** |
| **4.4** | Panel HBO - cyfnod gwneud cais wedi dod i ben, bydd y panel yn trafod y ceisiadau ym mis Ionawr 2025 cyn gwneud argymhellion i'r Cyngor. | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - dim gwybodaeth i law hyd yma. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.6** | Menter/Partneriaeth Llanberis Partneriaeth Dyffryn Peris - neb wedi gallu mynd i'r cyfarfod oedd wedi ei drefnu oherwydd dim digon o rybudd a hefyd ei fod wedi bod ar nos Lun ac nid yw nos Lun yn anaddas ar gyfer un cynghorydd. | **RhaG/BH** |
| **4.7** | Is-ddeddfau - rhoddwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Beth Holding ar gyflwyno is-ddeddfau. Er bod modd cyflwyno is-ddeddfau mae diffyg eu gorfodi oherwydd byddai angen i'r Cyngor Cymuned brynu'r gwasanaeth. Gobeithir edrych ar y mater hwn eto yn y flwyddyn newydd. | **CLERC/BH** |
| **4.8** | Waliau fyny i'r bwlch - dim ymateb gan y Parc Cenedlaethol. Priffyrdd wedi gofyn am archwiliad gan yr arolygydd ffordd. Y mater wedi ei ddod i sylw Gwynedd a'r Parc drwy law'r Cynghorydd Sir Gwilym Evans. | **GTE** |
| **4.10** | Gwersylla mewn mannau anaddas - dim ymateb wedi bod gan Cadw. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Dal i edrych am berson fyddai yn gwneud arolwg o'r llwybrau - y Cynghorydd Gwilym Evans am wneud ymholiadau gydag unigolyn o'r pentref. | **CLERC** |
| **5.2** | Mae cais wedi ei wneud i gael dau fin halen, un ger Elidir View a'r llall ar y ffordd sydd yn cysylltu Dol Eilian a Dol Elidir ger Plas Pengwaith, mae'r ardal yma mewn cysgod a phan mae yn rhewi nid oes dadmer ar yr ardal. Y Clerc i anfon at Priffyrdd Gwynedd. | **CLERC** |
| **5.3** | Mae pont Meibion sydd ar lwybr cyhoeddus wedi derbyn difrod oherwydd y storm ac oherwydd hyn mae rhan yma o'r llwybr wedi ei gau. | |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| **6.1** | Mae brigyn o goeden sydd yn y Fynwent yn amharu ar dy gyferbyn, mae angen tocio'r goeden. Y Clerc wedi trefnu gyda chontractwr i ymweld â'r fynwent ar gyfer cael pris a dyddiad pa bryd gall y gwaith ei wneud. | **CLERC** |
| **6.2** | Nid yw pwyllgor wedi cyfarfod er mwyn ystyried rheolau'r fynwent. Angen i'r cadeirydd drefnu dyddiad. | **GTE** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Adborth da wedi bod ar ôl y Ffair Nadolig. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | *Beth Holding* | **Dyddiad: 15/1/25** |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS